

Troi Allan yn Anghyfreithlon ac Aflonyddu gan Landlordiaid



Troi Allan yn Anghyfreithlon

Yn ôl Deddf Diogelu rhag Troi Allan 1977 mae'n dramgwydd troseddol i unrhyw berson droi tenant allan heb ddilyn y drefn gyfreithiol gywir.

Pa gamau all Adran Gwarchod y Cyhoedd eu cymryd?

Gall Swyddog Iechyd yr Amgylchedd geisio datrys yr anghydfod rhwng y landlord a'r tenant, os yw hyn yn briodol. Os ydy'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn credu bod digon o dystiolaeth, gall y Cyngor ystyried dechrau erlyniad troseddol yn erbyn y landlord.

Y Cyngor fydd yn erlyn ac ni fydd yr erlyniad yn costio dim i'r tenant, er y bydd yn rhaid iddo fynd i'r Llys i roi tystiolaeth. Os bydd yr erlyniad yn llwyddiannus, bydd y landlord yn cael dirwy neu garchar a bydd cofnod troseddol ganddo.

Beth yw Troi Allan yn Anghyfreithlon?

Mae troi allan yn anghyfreithlon yn digwydd pan fo deiliad preswyl yn cael ei amddifadu'n anghyfreithlon o'r cyfan neu ran o'i lety.

- Mae bron wastad yn drosedd (yn anghyfreithlon) troi tenant allan heb fynd i'r Llys yn gyntaf
- Mae'n drosedd ceisio troi allan yn anghyfreithlon
- Nid oes gwahaniaeth a ydy'r deiliad preswyl yn denant neu'n drwyddedai
- Nid oes gwahaniaeth a ydy'r tenant wedi torri ei contract ai peidio e.e. bod arno arian rhent, na nad yw'n caniatáu i'r landlord ddod i mewn i wneud gwaith atgyweirio, na bod y cyfnod penodol wedi dod i ben
- Hyd yn oed os oes gan y landlord orchymyn ildio meddiant, mae'n rhaid i'r gorchymyn gael ei orfodi â gwarant beili

Dyma enghreifftiau cyffredin o Droï Allan yn Anghyfreithlon:

- Cael eich cloi allan o ystafell
- Cael eich amddifadu o ystafell sy fel arfer yn cael ei rhannu â phobl eraill e.e. cegin neu ystafell fyw
- Colli defnydd o ran o'ch cartref o ganlyniad i waith adeiladu
- Cael eich troi allan o'ch cartref

Aflonyddu

Yn ôl Deddf Diogelu rhag Troi Allan 1977 mae'n dramgwydd troseddol i landlord, ei asiant neu unrhyw berson aflonyddu ar denant gyda'r bwriad o wneud i'r tenant adael ei gartref.

Pa gamau all Adran Gwarchod y Cyhoedd eu cymryd?

Gall Swyddog Iechyd yr Amgylchedd geisio datrys yr anghydfod rhwng y landlord a'r tenant, os yw hyn yn briodol. Os yw'r Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn credu bod digon o dystiolaeth, gall y Cyngor ystyried dechrau erlyniad troseddol yn erbyn y landlord.

Y Cyngor fydd yn erlyn ac ni fydd yr erlyniad yn costio dim i'r tenant, er y bydd yn rhaid iddo fynd i'r Llys i roi tystiolaeth. Os bydd yr erlyniad yn llwyddiannus, bydd y landlord yn cael dirwy neu garchar a bydd cofnod troseddol ganddo.

Beth yw Aflonyddu?

Mae'n drosedd i'r landlordiaid neu eu hasiantau wneud yr isod:

- Gweithredu yn y fath fodd fel eu bod yn debygol o amharu ar heddwch a chysur eu tenantiaid
- Tynnu gwasanaethau angenrheidiol yn ôl oddi wrth bobl sy'n byw yn y llety (mae gwasanaethau angenrheidiol yn cynnwys dŵr, nwy a thrydan, neu lifftiau mewn bloc o fflatiau)
- Gweithredu mewn ffordd y maent yn gwybod neu mae ganddynt achos rhesymol i gredu ei bod yn debygol o achosi i'r tenantiaid adael eu cartref neu ymwrthod rhag arfer eu hawliau

oni bai eu bod yn gallu dangos bod ganddynt reswm da dros wneud y pethau hyn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfranogi mewn [Cynllun Achredu Landlordiaid](#) ar gyfer Cymru gyfan.

I gael cyngor, cysylltwch ag [Adran Gwarchod y Cyhoedd](#).